# Adroddiad Blynyddol a Chrynodeb Ariannol 2015/2016

Children in Wales
Plant yng Nghymru



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cymru Ifanc | 4 |
| Datblygu a chefnogi rhwydweithiau | 6 |
| Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth | 7 |
| Cylchgrawn Plant yng Nghymru | 8 |
| Polisi, datblygu ymarfer ac ymchwil | 9 |
| Ymgynghori | 11 |
| Cynrychiolaeth | 12 |
| Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol | 14 |
| Conferences and events | 15 |
| Training | 16 |
| Open training during 2015-16 | 17 |
| Governance | 18 |
| Membership | 19 |
| Financial summary | 21 |








# Cyflwyniad

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Ein nod yw hybu buddiannau'r grwpiau hyn a gweithredu er mwyn diwallu eu hanghenion trwy wneud y canlynol:

- Cyfrannu at wireddu hawliau plant yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau triniaeth a sylw arbennig i blant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau bod llais gan blant a phobl ifanc

Corff o aelodau yw Plant yng Nghymru ac mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a luniwyd i hysbysu'r aelodau'n barhaus ynghylch datblygiadau newydd ac i hwyluso ymatebion ar y cyd. Rydym ni'n elusen gofrestredig ac yn sefydliad annibynnol, anllywodraethol. Rydym hefyd wedi'n hariannu o dan y Grant Datblygiad Plant a Theuluoedd gan Lywodraeth Cymru, a hynny ar brosiect tair blynedd i leihau anghydraddoldebau ym maes iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi, gan weithio o dan yr amcanion canlynol:

- Hysbysu plant a phobl ifanc a'u galluogi i gyfranogi'n effeithiol ac i gael eu barn wedi'i chlywed gan Weinidogion a llunwyr polisi
- Sicrhau bod y gweithlu plant a phobl ifanc yn cael gwybod am hawl plant i gyfranogi a bod strwythurau yn eu lle sy'n hwyluso rhannu dulliau cyfranogi effeithiol
- Cefnogi gweithlu traws-sector amlasiantaeth sy'n fwy gwybodus ac wedi ymgysylltu'n well, gan gynnwys llunwyr polisi ac ymarferwyr i gyflwyno polisi Llywodraeth Cymru
- Dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygu polisi ac ymarfer, a chyfrannu atynt, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar, ataliaeth a lliniaru tlodi, wedi'i sylfaenu ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut cyflawnwyd yr amcanion hyn trwy ein gwaith yn ystod 2015/16.





# Cymru Ifanc

Cymru Ifanc yw enw ein canolbwynt cyfranogiad, ac mae'n gweithio gydag ysgolion, fforymau ieuenctid, sefydliadau cenedlaethol ac unigolion i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed.
Plant yng Nghymru sy'n arwain Cymru Ifanc, gyda Lleisiau o Ofal, Tros Gynnal Plant, Promo Cymru a Youth Friendly yn bartneriaid i ni. Mae gennym ni hefyd femorandwm dealltwriaeth gyda Gweithredu dros Blant a Barnardo's Cymru.
Fel rhan o lansio Cymru Ifanc ym mis Mawrth 2015, nododd pobl ifanc o fforymau ieuenctid ledled Cymru y chwe blaenoriaeth roedden nhw am weld Cymru Ifanc yn eu cynnwys yn ein cynllun gwaith.

**Iechyd meddwl**

Cynrychiolir Plant yng Nghymru ar fwrdd prosiect y rhaglen gwella gwasanaeth Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP). Mae Cymru Ifanc yn datblygu diweddariadau hwylus i bobl ifanc ar waith T4CYP a bydd y rheiny'n cael eu dosbarthu'n eang i bobl ifanc ledled Cymru.

Mae Cymru Ifanc wedi creu cysylltiad â fforymau ieuenctid a sefydliadau yng Nghymru sy'n pryderu am faterion iechyd meddwl er mwyn archwilio ffyrdd o gydweithio a rhoi blaenoriaeth i ddarnau o waith i'w datblygu. Rydym hefyd wedi datblygu cysylltiadau cryf gyda'r elusennau iechyd meddwl, Hafal ac Amser i Newid Cymru.

Yn ystod Hydref - Tachwedd 2015, buon ni'n cefnogi dwy fenter yng nghyswllt gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yng Nghymru. Un o'r rheiny oedd arolwg a fyddai'n bwydo i'r Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a'r llall oedd achlysur sgrinio ffilm a thrafod yng ngofal DECIPHer ym Mhrifysgol Caerdydd.

Roedd ffocws cryf ar iechyd meddwl yng Nghynhadledd Cymru Ifanc, a chafwyd negeseuon cryf gan yr Athro Donaldson yn ystod ei neges fideo ynghylch y pwyslais ar lesiant yn y cwricwlwm newydd.

Hefyd cynhaliwyd gweithdy i bobl ifanc, 'Mae'n Dda Siarad', gan roi cyfle i'r cyfranogwyr ddatblygu negeseuon allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Nodwyd iechyd meddwl a llesiant emosiynol fel maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer fforymau iechyd lleol, ac mae pobl ifanc yn dal i godi hyn fel mater.

**Cam-drin Domestig a Pherthnasoedd Iach**

Bu Cymru Ifanc yn cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru i weithio ar adolygu'r cwricwlwm, trais domestig a iechyd rhyw, er mwyn canfod y pwyntiau dylanwadol. Arweiniodd hyn at wahodd Cymru Ifanc i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar yr ymgyrch Byw Heb Ofn i ddatblygu taflen oedd yn canolbwyntio ar berthnasoedd iach i bobl ifanc yn eu harddegau, a'r rhai oedd yn cychwyn ar eu gyrfa yn y brifysgol.

Yn ystod y flwyddyn, bu Cymru Ifanc yn cwrdd â chynrychiolwyr o Cymorth i Ferched Cymru er mwyn edrych ar ffyrdd posibl o gydweithio. Yn ogystal, roedd gan Cymru Ifanc bresenoldeb yng Nghynhadledd Diwrnod Rhyngwladol y Ferch 2015 - rhoi Cyfle Tecach i Ferched.

Yn ystod Gorffennaf ac Awst 2015, bu Cymru Ifanc yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Lleisiau o Ofal i gyflwyno gweithdai 'Lleisio Barn' ar gyfer pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol.

Cyflwynwyd tri gweithdy, yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Llandudno, a chynhyrchodd y bobl ifanc ffilmiau byr oedd yn amlygu eu prif negeseuon. Rhannwyd y fideo 'Lleisio Barn' gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AC.
Yn ystod Ionawr a Chwefror 2016, bu Cymru Ifanc yn ymgynghori ar fersiwn ddrafft i bobl ifanc o'r 'Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol', a rhoddodd Cyngor Gofal Cymru sylw i'w barn.

**Camddefnyddio Sylweddau**

Cynhaliodd Cymru Ifanc weithdy fel rhan o ymgynghoriad ar gyfer Llywodraeth Cymru er mwyn llywio Cynllun Cyflawni Gweithio gyda'n gilydd i Leihau Niwed 2016-18.

Wedi'r gweithdy crewyd cysylltiadau â sefydliadau er mwyn medru clywed llais pobl ifanc sy'n cael cefnogaeth camddefnyddio sylweddau, i fedru llywio'r ymgynghoriad ynghylch darparu gwasanaeth.

Yn ystod Ionawr-Mawrth 2016, mae Cymru Ifanc wedi bod yn cynnal trafodaethau grŵp bach anffurfiol mewn lleoliad gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc 11+ ac yn ymweld â rhai fforymau ieuenctid ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol.

Rhoddodd Cymru Ifanc adborth i'r ymgynghoriad ar 'Isafswm Pris Uned' ar gyfer alcohol, a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2015.

Casglwyd yr adborth o'r gweithdy Camddefnyddio Sylweddau a gynhaliwyd, a thrwy ymweld â fforymau, defnyddio holiaduron ac arolwg 'survey monkey'. Gwelwyd y byddai isafswm pris uned yn beth da yn gyffredinol, ond roedd rhai pryderon gwirioneddol ynghylch effaith bosibl hynny ar deuluoedd ac aelwydydd lle mae alcohol yn flaenoriaeth.

# Cymru Ifanc

**Gwrthfwlio**

Cynrychiolir Cymru Ifanc ar grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru (AWABLG) a'r Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio (PBBG). Cynhaliwyd dau arolwg i bobl ifanc yn ystod 2015-16, a chafwyd 122 o ymatebion a lywiodd ddatblygiad wythnos gwrthfwlio 2015.

Cynhaliwyd gweithdy cyntaf Rhwydwaith Gwrthfwlio Pobl Ifanc Cymru Ifanc yng Nghaerdydd. Daeth 18 o bobl ifanc o bob rhan o dde Cymru ynghyd i drafod y gwaith maen nhw'n ei wneud yn lleol, ac i drafod gwaith presennol ac agweddau at fwlio.

Bu swyddog o Gangen Llesiant Disgyblion Llywodraeth Cymru hefyd yn rhannu gwaith y Grŵp Arweinyddiaeth. Hysbyswyd y bobl ifanc ynghylch y gweithgareddau oedd wedi'u cynllunio ar gyfer Wythnos Gwrthfwlio 2015, Mae Bwlio'n Fusnes i Bawb. Gofynnwyd i bobl ifanc yn y gweithdy am eu barn ar gynnig Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru ar gyfer Wythnos Gwrthfwlio. Datblygwyd y syniad ymhellach yn gyfres o adnoddau ac yn ymgyrch ymwybyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, #saynobullyingmustgo.

Ym mis Chwefror 2016, cyfarfu Rhwydwaith Cymru Ifanc i drafod Wythnos Gwrthfwlio 2016, ac maen nhw wedi penderfynu gweithio gyda'r Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio ar ddylunio a dosbarthu arolwg gwrthfwlio i bobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiad arall adeg hanner tymor. Maent hefyd wedi rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ynghylch yr awgrym i gadw arwyddair 'mae bwlio'n fusnes i bawb' ar gyfer 2016, ac ymgyrch #sayno #bullyingmustgo yn y cyfryngau gyda'r Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio.

Cyflwynodd prosiect theatr fforwm Taking Flight, 'Real Human Being', ddau weithdy gwrthfwlio i 30 o bobl ifanc, gan edrych ar faterion yn ymwneud â throseddau atgasedd ar sail anabledd yn ystod 2015.

**Diogelwch ar-lein**

Mae Plant yng Nghymru wedi cynnal trafodaethau gyda phrif swyddogion Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd y gall Cymru Ifanc ymgysylltu â'u gwaith, ac maen nhw wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r Is-adran Dysgu Digidol i archwilio sut gall pobl ifanc ymwneud â'u datblygiadau. Mae Cymru Ifanc wrthi ar hyn o bryd yn creu cysylltiadau ag asiantaethau allweddol yn y maes hwn, ac yn edrych ar dystiolaeth ymchwil, er mwyn llywio datblygiad cynllun gwethredu, gan gynnwys cyfarfodydd gyda Wise Kids i drafod unrhyw gyfleoedd i weithio ar y cyd a allai ddilyn, a chwrdd â'r NSPCC i lywio datblygiad eu hadnoddau.

**CCUHP**

Cynhaliodd Cymru Ifanc arolwg Cymru gyfan yn ystod haf 2015, a defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd i lywio cyflwyniad Cymru Ifanc i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Ngenefa ym mis Hydref 2015. http://www.youngwales.wales/index.php/priority-areas/uncrc.

Cafodd tri pherson ifanc o Cymru Ifanc gyfarfod gyda'r aelod o bwyllgor y CU a fu'n ymweld â Chymru yn haf 2015, ac fe gyflwynon nhw agweddau ar yr adroddiad i'r pwyllgor mewn cyfarfod yng Ngenefa. Byddwn ni'n cynnal arolwg tebyg bob haf yn dystiolaeth ar gyfer sesiynau adrodd yn y dyfodol.

Mae Cymru Ifanc wedi datblygu a chyflwyno gweithdai mewn ysgolion, yn canolbwyntio ar greu ymwybyddiaeth i CCUHP yng Nghymru, a byddant yn parhau i wneud y gwaith hwn.

**Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod**

Mae Cymru Ifanc wedi adlunio blaenoriaethau'r flwyddyn sy'n dod i gyfateb i bolisïau cyfredol Llywodraeth Cymru. Y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd:

- Llesiant plant a phobl ifanc, a fydd yn cynnwys iechyd meddwl
- Newid yn yr Hinsawdd
- Gwrthfwlio
- ABCh a'r datblygiadau addysg sy'n deillio o adolygiad Donaldson
- Bydd hawliau plant a CCUHP yn parhau'n flaenoriaeth yng nghyswllt casglu tystiolaeth i lywio adroddiadau i'r CU yn y dyfodol. CCUHP hefyd fydd y thema sy'n darparu sylfaen ar gyfer holl waith Cymru Ifanc.



# Datblygu a chynnal rhwydweithiau cryf

*"Fel cadeirydd newydd ei ethol ar y grŵp yma rwyf wrth fy modd gyda'm profiadau hyd yma. Diolch am eich cefnogaeth!"*
*-Cadeirydd y rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta*

**Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso rhwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd i drafod materion polisi ac ymarfer. Maent yn hanfodol i'n gwaith gan eu bod yn ein helpu i ddeall materion sy'n destun pryder sy'n effeithio ar sefydliadau ar draws y sector plant. Trwy'r rhwydweithiau hyn gallwn roi gwybod i'r aelodau am ddatblygiadau newydd, rhannu arfer da a datblygu persbectifau priodol ar ddatblygiadau polisi.**

Partneriaeth gydweithredol o 5 sefydliad yw Bwrdd Rheoli Cywaith, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth, gweithrediad a chyflawniad gwasanaeth cymorth a chefnogaeth ffôn, gwibnegeseua a negeseuon testun MEIC, i blant a phobl ifanc. Mae gan Plant yng Nghymru gyfrifoldebau Cadeirio ychwanegol ar gyfer consortiwm Cywaith.

Mae'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth yn gyfle i ymarferwyr yn y maes rannu ymarfer, profiad a gwybodaeth am eiriolaeth a meysydd cysylltiedig. Mae'n cyfrannu at wella datblygiad ymarfer eiriolaeth ledled Cymru.

Mae Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan yn cyfrannu at ddatblygiad eiriolaeth effeithiol yng Nghymru ac yn cefnogi hynny. Y nod yw hybu gwaith mewn partneriaeth a strategaethau datblygu rhwng sefydliadau. Mae'n hwyluso datrys problemau ac yn datrys gwrthdaro budd a allai godi.

Grŵp o sefydliadau gwirfoddol yw Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), ac mae'n ceisio diogelu a hybu hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru. Nod y grŵp yw gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisi, er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn cyflawni hyd eithaf eu potensial. Plant yng Nghymru sy'n cadeirio ac yn hwyluso'r grŵp yma.

Mae'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer Plant a Theuluoedd yn cwrdd yn rheolaidd yn Ne Cymru er mwyn galluogi ymarferwyr i rannu arbenigedd a gwybodaeth ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Mae Grŵp Cyfnewid Ymarfer Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn galluogi ymarferwyr yng Ngogledd Cymru i gwrdd yn rheolaidd i rannu arbenigedd a gwybodaeth ynghylch amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

Mae'r Fforwm ar gyfer Darparu Gwasanaeth Integredig yn cynnull gweithwyr proffesiynol o bob rhan o Gymru sy'n arwain datblygiad y Tîm o Gwmpas y Teulu, fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Nod y fforwm yw cynnig cefnogaeth cymheiriaid i reolwyr sy'n ymwneud â datblygu gwasanaethau lleol. Mae hefyd yn gyfle i weithwyr proffesiynol rannu arfer da a gwybodaeth wrth ddatblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ledled Cymru.

Mae'r Grŵp Polisi Plant Anabl yn cynnull y rhai sydd â brîff polisi ar anabledd i amlygu materion a phryderon ynghylch gwasanaethau i blant anabl. Nod y grŵp yw dylanwadu ar bolisi cyhoeddus a chraffu ar ddeddfwriaeth yng Nghymru er lles plant a phobl ifanc anabl.

Grŵp amlasiantaeth yw'r Gyfnewidfa Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal, a'i nod yw helpu i dywys polisi ledled Cymru er hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu ymarfer a gwybodaeth.

Mae'r Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta yn rhwydwaith ar gyfer y rhai sydd â rôl gydlynu strategol ym maes cymorth rhianta yn eu Hawdurdod Lleol. Mae'r cyfarfodydd bob chwarter yn gyfle i'r cydlynwyr rannu materion, datrysiadau, ymchwil a pholisi gyda'u cydweithwyr.

Nod Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru yw sicrhau bod polisïau sy'n ymwneud â'r agenda gwrthfwlio yn cael eu gwerthuso a'u cyfuno, a hynny mewn ysgolion a chymunedau. Mae'r grŵp yn cefnogi gwaith gwrthfwlio yn genedlaethol ac yn lleol. Mae hefyd yn gyfle i rannu ymarfer a chanfod pryderon cyffredin.

Clymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant yw Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru. Fe'i sefydlwyd ym mis Tachwedd 2001 ac mae'n gweithio i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o dlodi plant yng Nghymru a mesurau i ddod â hynny i ben. Mae'n lobïo dros bolisïau ar bob lefel yn y llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Mae'r Rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cwrdd bob chwarter, ac yn cynnull Cydlynwyr Dechrau'n Deg y 22 Awdurdod Lleol. Hefyd mae cyfarfodydd a gweithdai ychwanegol yn cael eu trefnu yn ôl y galw. Mae'r Rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cynnwys holl reolwyr y rhaglen mewn Awdurdodau Lleol yn ogystal â rheolwyr Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn, a hefyd yn cynnal cyfarfodydd ar bynciau penodol ar ffurf is-grwpiau. Mae'r rhwydwaith ar agor i bawb sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn rhannu materion a phryderon ac yn cefnogi datblygiad arfer da. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cefnogi rhwydwaith gofalwyr ifanc sy'n cwrdd i nodi materion allweddol sy'n destun pryder ac sy'n cael cyfle i gyflwyno'u pryderon i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

# Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth


END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Welcome to the monthly bulletin for the End Child Povert[y]...

Feel the Heat awards

NEA

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Services

Information bulletin November 2015/
Bwletin gwybodaeth Tachwedd 2015

Adoptions increased through Wales' new National Adoption Service

A curriculum for Wales - a curriculum for life

Homelessness among children rises by 15,000

"Mae cwmpas eang yr wybodaeth yn yr e-friffiadau yn fy ngalluogi i ddarllen uchafbwyntiau a manylion cyfeirio ar gyfer meysydd sy'n effeithio ar fy 'arbenigedd' fy hun ac yn galluogi ffordd strategol o feddwl." Aelod o Plant yng Nghymru

Mae Plant yng Nghymru yn cynhyrchu amrywiaeth eang o wybodaeth i helpu i sicrhau bod gan yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf.

### Gwefan Plant yng Nghymru

Mae gwefan Plant yng Nghymru (www.plantyngnghymru.org.uk) yn cael ei diweddaru bob dydd. Mae'n darparu diweddariadau newyddion gennym ni ein hunain, ein haelodau, a'r sector plant ehangach. Mae adran bolisi'r wefan yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth a datblygiadau eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

### Gwefan Cymru Ifanc

Mae gwefan Cymru Ifanc, www.cymruifanc.cymru, yn cefnogi ein gwaith cyfranogiad. Mae'n ganolbwynt gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau ieuenctid, ysgolion, sefydliadau partner ac unigolion. Mae'r wefan hefyd yn gyfle i ni rannu gwybodaeth ynghylch gwaith Cymru Ifanc a chyfleoedd i bobl ifanc chwarae rhan a chael clywed eu lleisiau.

### Gwasanaethau e-friffio

Mae'r e-friffiad rydyn ni'n ei baratoi i'r aelodau yn cael ei ddosbarthu'n fisol. Mae'n sicrhau bod gan ein haelodau'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau polisi a newyddion. Mae'r e-friffiad Polisi yn cael ei ddosbarthu i fwy na 3000 o unigolion, ac mae'r adborth gan yr aelodau'n dangos ei fod hefyd yn cael ei rannu'n llawer ehangach o fewn y sector plant yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynhyrchu e-friffiadau rheolaidd ar gyfer y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant a'r rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

### Twitter

Mae Plant yng Nghymru yn defnyddio Twitter i hyrwyddo ein gweithgareddau a'n hadnoddau, yn ogystal â pholisi newydd a dogfennau sy'n defnyddio ein cyfrifon, @childreninwales ac @plantyngnghymru. Ddiwedd Mawrth 2016 roedd gennym ni 3560 o ddilynwyr Saesneg a 386 Cymraeg. Mae gan ein cyfrif Cymru Ifanc, @youngwalesCIW, 767 o ddilynwyr, ac rydym hefyd wedi datblygu tudalen Facebook, sydd i'w gweld yn Facebook.com/Young-Wales-CymruIfanc.

# Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Cyhoeddir cylchgrawn Plant yng Nghymru bob chwarter. Mae'n crynhoi'r datblygiadau polisi o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig, yn ogystal â newyddion diweddaraf Plant yng Nghymru a'n haelodau. Mae'n cynnwys erthyglau a chyfweliadau trylwyr ar bynciau pwysig a cholofnau rheolaidd gan Gomisiynydd Plant Cymru a MEIC Cymru.





### Gwanwyn 2015

- Cymru Ifanc
- Prosiect Buddsoddi mewn Plant
- Llysgenhadon Ieuenctid
- Cynigion Papur Gwyn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Bwrdd Adolygu Marwolaethau Plant
- Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
- Diweddariad CAFCASS Cymru




### Haf 2015

- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
- Trefniadau ar gyfer ymadawyr gofal
- Diwygio Gwasanaethau Cym-deithasol
- Pwynt Teulu Cymru
- Prosiect yr NSPCC: Ymladd 'zombies pornograffi'
- Hyder mewn gofal
- Marwolaethau yn sgîl cnoi ac ymosodiadau gan gŵn




### Hydref 2015

- Gweledigaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni
- Mynediad at chwarae
- Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd
- Law yn llaw at blant a phobl ifanc
- Pa mor ddiogel yw ein plant?




### Gaeaf 2015

- Rhianta cadarnhaol
- Prosiect gallu ariannol
- Adolygiadau Marwolaethau Plant
- Maethu a Mabwysiadu
- Maniffesto'r Glymblaid Tlodi Tanwydd
- Mynd i'r afael â Llurgunio Or-ganau Rhywiol Merched
- Trefniadau gofal maeth parhaol

# Polisi, ymarfer, datblygiad ac ymchwil

Mae llawer o waith Plant yng Nghymru yn cynnwys hybu datblygiad polisi ac ymarfer. Yn ystod 2015/16 fe fuon ni'n cyflawni ystod eang o weithgareddau oedd yn hybu datblygiad polisi ac ymarfer ar draws amrywiaeth o feysydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cyn i'r Ddeddf ddod i rym, bu Plant yng Nghymru yn cyflwyno hyfforddiant (trwy Fframwaith y Cyngor Gofal) ar Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf - diwallu ac asesu anghenion yr unigolyn, mewn tri awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd yn drawiadol nad oedd pob rheolwr nac ymarferydd wedi gwerthfawrogi'n llawn y newid diwylliant oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf, gyda'r pwyslais ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, llesiant, llais a rheolaeth yr unigolyn a phartneriaeth/cydgynhyrchu. Bydd angen peth amser i gyflawni hyn.
Bu Plant yng Nghymru hefyd yn cyflwyno hyfforddiant i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ledled Cymru ynghylch Rhan 1, y Cyflwyniad, a Rhan 2, Swyddogaethau Cyffredinol y Ddeddf. Ffocws penodol oedd datblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, a sut gallai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gysylltu â'r ddarpariaeth honno.

### Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Plant yng Nghymru yw cadeirydd TSANA (Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector), sef grŵp o sefydliadau gwirfoddol sy'n ceisio amddiffyn a hybu hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru. Ar hyd 2015/16 rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn gallu cyrchu'r gefnogaeth mae arnynt ei hangen i gyflawni hyd eithaf eu potensial. Roedd hyn yn cynnwys cwrdd â'r Gweinidog Addysg ar y pryd, Huw Lewis, i drafod y cynigion yn nrafft y Ddeddf Anghenion Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg a chwblhau ymateb i'r ymgynghoriad dilynol. Roedd TSANA hefyd yn aelod o Grŵp Datblygu Cynnwys Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru, a fu'n datblygu'r Côd Ymarfer drafft ac yn paratoi papurau ar eiriolaeth, datblygiad y Cynllun Datblygu Unigol, gwasanaethau arbenigol ac ati.

### Maniffesto Cenedlaethol yr Elusennau Plant ar gyfer Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ym mis Chwefror 2016, cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai, Plant yng Nghymru oedd un o chwe elusen plant amlwg a lansiodd faniffesto ar y cyd, yn cyflwyno argymhellion ar gyfer cyfnod nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch datblygiadau y byddent yn hoffi eu gweld i blant a phobl ifanc. Ymhlith yr argymhellion galwodd yr elusennau – NSPCC Cymru/ Wales, Action for Children - Gweithredu dros Blant, Achub y Plant, Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru a Tros Gynnal Plant – am gynnwys Gweinidog Plant yn Llywodraeth nesaf Cymru, er mwyn bwrw golwg ar faterion plant; Bil newydd Plant a Phobl Ifanc; a mwy o bwerau i Gomisiynydd Plant Cymru. Roedd y maniffesto'n galw am strwythurau cadarn yn y Llywodraeth; sbarduno gweithredu lleol cadarnhaol; a fframwaith cyfreithiol cryf.

### Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso astudiaeth beilot ar allu ariannol o'r enw Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian. Cychwynnodd y prosiect ym mis Hydref 2015 a bydd yn parhau tan fis Ebrill 2017.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) mewn partneriaeth â'r Loteri Fawr Cymru yn cyflawni gwaith ymchwil arloesol yng Nghymru trwy Plant yng Nghymru. Bydd y peilot yn profi effeithiolrwydd rhaglenni a luniwyd i wella gallu ariannol plant trwy weithio gyda rhieni.

Y nod yw cynhyrchu tystiolaeth gadarn ynghylch effaith a chost-effeithiolrwydd rhaglenni rhianta. Bydd y peilot yn cynyddu ymwybyddiaeth rhieni o'r rôl bwysig sydd ganddynt ac yn rhoi iddynt yr awydd, yr hyder a'r gallu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o oedolion sy'n alluog yn ariannol.

### Child and family poverty

Yn dilyn ein hadroddiad ar dlodi plant a theuluoedd yn 2014, yn hydref 2015 fe wnaethon ni gynnal arolwg o'r aelodau a'r gweithlu ehangach, yn edrych eto ar y materion a godwyd i ganfod a oedd pethau wedi newid ers cyhoeddi'r adroddiad.

Ym mis Ionawr eleni, fe wnaethon ni gyhoeddi crynodeb o ganlyniadau'r gwaith hwn yn Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru: Canlyniadau Arolwg Plant a Theuluoedd 2015. Rhennir yr adroddiad hwn yn chwe adran gysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y themâu canlynol - effaith diwygio lles, tlodi bwyd, dyled, costau byw, materion tai, a'r 'premiwm tlodi', sy'n golygu bod pobl ar incwm isel yn methu cael y prisiau a'r cynigion gorau ar ynni, er enghraifft.

Ar ben hynny, mae adran yn yr adroddiad ar gyfer materion eraill arwyddocaol roedd yr ymatebwyr am dynnu ein sylw atynt, oedd yn cynnwys argaeledd a chost trafnidiaeth, ansefydlogrwydd cyflogaeth ac incwm, gofal plant a'r berthynas rhwng tlodi a iechyd meddwl. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o rai o'r datrysiadau trosfwaol a nodwyd gan ymatebwyr, ochr yn ochr â nifer o ddyfyniadau gan ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Dengys mwyafrif llethol o'r ymatebion i'n harolwg fod pob un o'r chwe thema yn dal i fod yn berthnasol, yn wir, eu bod yn fwy felly ers 2014.

### Maniffesto'r Glymblaid Tlodi Tanwydd

Mae Plant yng Nghymru yn rhan o'r Glymblaid Tlodi Tanwydd dan arweiniad NEA Cymru a Chyngor ar Bopeth. Cefnogir y Glymblaid gan grŵp llywio sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau allweddol sy'n gweithio i symud yr agenda tlodi tanwydd ymlaen yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd y glymblaid faniffesto, 'Dileu Argyfwng Cartrefi Oer Cymru' (Ending Wales' Cold Crisis) ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Mae'r maniffesto yn cyflwyno pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu i Lywodraeth Cymru yn ystod y 5 mlynedd nesaf o 2016:

- Pennu targed tlodi tanwydd newydd i wella cartrefi hyd at safon effeithlonrwydd ynni isaf EPC C, gyda chefnogaeth y data mae arnom ni ei angen i sbarduno strategaeth newydd uchelgeisiol
- Buddsoddi mewn rhaglen effeithlonrwydd ynni wedi'i thargedu'n dda, sydd â digon o adnoddau, ar gyfer aelwydydd tlawd o ran tanwydd yng Nghymru, fel blaenoriaeth seilwaith
- Achub bywydau trwy weithredu canllawiau NICE ar gyfer mynd i'r afael â gormodedd o farwolaethau yn ystod y gaeaf
- Amddiffyn aelwydydd bregus â chronfa argyfwng ar gyfer gwresogi brys pan fydd eu hiechyd mewn perygl
- Ariannu gwasanaethau cyngor annibynnol i helpu a chefnogi pobl sy'n dioddef tlodi tanwydd.


### Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) Cymru

Mae'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) wedi bod yng ngofal Plant yng Nghymru ers mis Medi 2015, wedi i'r BAAF gau.

Gellir gofyn i'r IRM adolygu achosion gan ddarpar ofalwyr maeth neu fabwysiadwyr neu rai sydd eisoes yn maethu neu'n mabwysiadu. Bydd hynny'n digwydd os yw'r asiantaeth maent yn cyflwyno cais iddi neu'n gweithio gyda hi yn debygol o beidio â'u cymeradwyo fel rhieni maeth neu fabwysiadol; i gwblhau'r broses o'u cymeradwyo yn dilyn adolygiad; neu i newid telerau cymeradwyo gofalwyr maeth heb gytundeb.

Mae gan yr IRM restr ganolog o weithwyr proffesiynol a lleygwyr sydd â phrofiad perthnasol, ac mae'n defnyddio'r rhestr honno i gynnull panel sy'n edrych ar y cais/yr adolygiad ac yn cyflwyno argymhelliad. Mae'r argymhelliad hwnnw'n mynd yn ôl i'r asiantaeth, a fydd yn ei ystyried ac yn dod i benderfyniad terfynol.


Gall yr ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig i'r panel ei hystyried a bod yn bresennol ar y diwrnod, ochr yn ochr â chynrychiolwyr yr asiantaeth, er mwyn sicrhau bod gan y panel yr holl wybodaeth berthnasol wrth benderfynu ar argymhelliad.



# Ymgynghori

Un o brif rolau Plant yng Nghymru yw cyfleu barn yr aelodau i lunwyr polisi. Rydym yn ymateb i ystod eang o ymgyngoriadau ac yn cadw mewn cysylltiad â'n haelodau, fforymau a rhwydweithiau er mwyn sicrhau bod ein hymatebion yn amlygu'r holl faterion sy'n berthnasol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes. Mae copïau o'n holl ymatebion ymgynghori ar gael yn adran bolisi ein gwefan. Yn ystod 2015/16 buom ni'n ymateb i'r ymgyngoriadau canlynol:

## Ymatebion Ymgynghori




- Lleoliadau addysg y tu allan i'r ysgol, Mawrth 2016, Llywodraeth Cymru
- Adnewyddu Strategaeth Cynhwysiad Ariannol Cymru, Rhagfyr 2015, Llywodraeth Cymru
- Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru), Rhagfyr 2015, Llywodraeth Cymru
- Amcanion Cydraddoldeb Drafft ar gyfer 2016-20, Gorffennaf 2015, Llywodraeth Cymru
- Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, Rhagfyr 2015, Llywodraeth Cymru
- Rheoliadau o dan Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Eiriolaeth), Gorffennaf 2015, Llywodraeth Cymru
- Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Mai 2015, Llywodraeth Cymru
- Crynodeb drafft ar gyfer plant a phobl ifanc o'r 'Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol', Chwefror 2016, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- 'Mwy na geiriau..' Cynllun i wella gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i siaradwyr Cymraeg, Mawrth 2016
- Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus, Chwefror 2016
- Rheoliadau o dan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Plant sy'n Derbyn Gofal) Hydref 2016



# Cynrychiolaeth

**Mae Plant yng Nghymru yn amlygu pryderon ein haelodau ac yn hwyluso datblygiad yr agenda plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy gynrychiolaeth ar nifer o grwpiau. Yn ystod 2015/16 roedd y rhain yn cynnwys:**

### Llywodraeth Cymru

- Grŵp Datblygu Agored
- Bwrdd Partneriaeth Osgo a Symudedd Cymru gyfan
- Grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio
- Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid CAFCASS Cymru
- Grŵp Ymgynghorol Darparu CAMHS
- Cynghrair Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion Cyngor Cymru
- Mynediad Uniongyrchol at y Fydwraig
- Rhwydwaith Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Bwrdd Cyflawni Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Plant Agored i Niwed
- Grŵp Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn
- Fframwaith Mesur Perfformiad Awdurdodau Lleol - Grŵp Gorchwyl a Gorffen
- Grŵp Llywio Cyfathrebu a Marchnata Llythrennedd a Rhifedd
- Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth
- Grŵp Marchnata MEIC
- Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
- Fframwaith newydd ar gyfer gwelliant a grŵp llywio cytgord newydd - gwasanaethau cymdeithasol
- Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Fforwm Partneriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Panel Dinasyddion y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tasglu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Polisi
- Gwasanaethau Cymdeithasol - tîm cyflawni Cryf a Phroffesiynol
- Acoladau Gofal Cymdeithasol Cyngor GOFAL Cymru
- Bwrdd Ymgynghorol Camddefnyddio Sylweddau
- Grŵp Rhanddeiliaid 'Talk Care' – Datblygu Fframwaith Canlyniadau i'r GIG
- Grŵp Ymgynghori Allanol Trechu Tlodi
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd cysylltiedig
- Grŵp Ariannu a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Rhwydwaith Ymgynghorol Diogelu ac Amddiffyn

### Y Cynulliad Cenedlaethol

- Grŵp Trawsbleidiol – Anabledd
- Grŵp Ymgysylltiad Ieuenctid
- Grŵp Trawsbleidiol - Tlodi Tanwydd
- Grŵp Trawsbleidiol - Plant sy'n Derbyn Gofal

### Y Deyrnas Unedig

- Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant
- End Child Poverty UK
- Bwrdd Rheoli 'End Child Poverty'

### Y Sector Statudol

- Grŵp Cynrychiolaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Cyngor Sir y Fflint
- Is-grŵp PPPI Nod Craidd 7 Conwy
